

CLWB MYNYDDA CYMRU
CYFARFOD BLYNYDDOL 2021 6.00 y h., 13eg o DACHWEDD 2021,
GWESTY OAKLEY ARMS, MAENTWROG

1. Croeso

Estynnodd Dwynwen Pennant, Cadeirydd y Clwb groeso cynnes i'r aelodau i'r cyfarfod a nododd y byddai rhai aelodau yn ymuno â'r cyfarfod o'u cartrefi drwy gyfrwng Zoom.

Talodd Dwynwen deyrnged i Gareth Pierce a fu farw ar daith y Clwb wrth fynd am gopa'r Aran Fawddwy ar ddydd Sadwrn, 3ydd Gorffennaf 2021. Roedd yn bresennol ei hun ar y daith ac diolchodd i bawb am eu gwaith caled yn ceisio achub Gareth a thalodd deyrnged i'r swyddog meddygol a'r tîm achub fu'n eu cynorthwyo. Croesawodd aelodau o deulu Gareth oedd yn bresennol yn y cyfarfod a hefyd Tomos Hughes o Wasanaeth Ambiwlans Cymru a fyddai yn cyflwyno diffibriliwr i'r Clwb yn ddiweddarach ar y noson.

Cyfeiriodd at y ffaith fod 2021 wedi bod yn flwyddyn rhwystredig eto oherwydd y cofid a mawr obeithiai y byddai'r sefyllfa yn gwella yn sgil yr ymgyrch frechu.

2. Ymddiheuriadau :

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y canlynol:

Raymond Griffiths
Gwen Richards
Hefin a Morfudd Thomas

3. Cofnodion Cyfarfod Blynyddol 2020

Derbyniwyd cofnodion Cyfarfod Blynyddol 2020 a gynhaliwyd ar 16eg Tachwedd, 2020 drwy gyfrwng Zoom fel rhai cywir.

4. Adroddiad y Trysorydd.

A. Cyflwynwyd adroddiad a datganiad ariannol ar gyfer 2020/2021.

Adroddwyd

- i. bod nifer yr aelodau eleni yn 275
- ii. bod incwm o £6183 o'r tâl aelodaeth o £20 a thalwyd £20.25 y pen i'r CMP ar gyfer aelodaeth o'r corff hwnnw
- iii. derbyniwyd rhodd o £846.26 er cof am Gareth Pierce, trwy garedigrwydd ei deulu .
- iii. bod y cyfrifon yn dangos bod gan y Clwb £7603.41 yn y banc yn cynnwys cronfa goffa Gareth Pierce (£846.26) a chronfa gyffredinol o £6757.15.

Cytunwyd derbyn y cyfrifon ar gyfer 2020/2021

B. Cyflwynwyd adroddiad y Trysorydd ar dâl aelodaeth y Clwb

Adroddwyd

- i. byddai taliad i'r Cyngor Mynydda Prydeinig yn parhau i fod yn £20.25 y pen yn Ionawr 2022, sef yr adeg mae mwyafrif llethol yr aelodau yn talu eu tâl aelodaeth.
- ii. fodd bynnag byddai yn cynyddu i £21 y pen ym mis Ebrill 2022 ac yna yn cynyddu ymhellach yn unol â chwyddiant yn Ionawr 2023 ac yn flynyddol wedyn yn ôl pob tebyg.
- iii. am y rheswm yma roedd y Pwyllgor wedi argymhell cynyddu'r tâl aelodaeth i £25 y pen o fis Ionawr 2023 ymlaen.
- iv. byddai cael penderfyniad ar hyn eleni yn caniatáu digon o amser i weithredu arno.

Cytunwyd

- i. dylid cadw tâl aelodaeth y Clwb yn £20 ar gyfer 2022 ac y dylid ei gynyddu i £25 o Ionawr 2023.
- ii. diolch i Dilys am ei holl wath.

5. Adroddiad yr Ysgrifennydd Cyffredinol ac Aelodaeth.

Adroddodd Iolo yn ogystal â thri chyfarfod blynyddol arferol y Pwyllgor eleni ym mis Ionawr, Mai a Medi, cafwyd dau gyfarfod arbennig, un ym mis Mawrth i ystyried Strategaeth Parcio a Thrafnidiaeth Gynaliadwy Yr Wyddfa ac Ogwen gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri a'r llall yn nechrau Hydref i roi sylw i nifer o faterion oedd angen sylw brys cyn y Cyfarfod Blynyddol. Roedd y Pwyllgor wedi parhau â'r drefn o gynnal y cyfarfodydd i gyd drwy gyfrwng Zoom eto eleni. Fe nododd hefyd fod cofnodion cyfarfodydd y Pwyllgor a rhai'r Cyfarfodydd Blynyddol i'w gweld ar wefan y Clwb.

Yn mis Ionawr a Mai effaith Cofid 19 ynghyd â materion arferol eraill oedd yn mynd â sylw'r Pwyllgor a da oedd gweld erbyn cyfarfod mis Mai bod y sefyllfa'n gwella a gallwyd dechrau llacio rhai o'r cyfyngiadau a roddwyd ar ein teithiau. Fe gynyddwyd y nifer a ganiateid ar y teithiau o 12 i 15 ym mis Mai ac wedyn i 18 yn ddiweddarach yn ystod yr haf wrth i'r sefyllfa wella. Mae'r Pwyllgor ers mis Medi wedi penderfynu codi'r cyfyngiadau ar y niferoedd a ganiateir ar y teithiau.

Yng Ngorffennaf fe wynebwyd un o'r digwyddiadau mwyaf ysgytwol pan frawychyd pawb gan farwolaeth sydyn Gareth Pierce ar daith y Clwb ar Aran Fawddwy. Gwerthfawrogir yn fawr ymdrechion yr aelodau oedd efo Gareth i'w helpu nes i gymorth proffesiynol gyrraedd. Estynnwn ein cydymdeimlad gyda'r teulu yn eu colled enfawr. Yn garedig iawn penderfynodd teulu Gareth rannu'r rhoddion a dderbyniwyd er cof amdano rhwng yr Urdd a'r Clwb. Hyd yma mae'r Clwb wedi derbyn swm o oddeutu £850 ac mae trafodaethau wedi bod gyda'r teulu ynglŷn â sut y dylid defnyddio'r arian yma. Un o'r syniadau dan sylw yw defnyddio'r arian i annog pobl ifanc i ymgymryd â gweithgareddau awyr agored.

Derbyniodd y Pwyllgor hefyd rodd garedig o ddiffibriliwr i'r Clwb gan aelod o deulu Gareth er cof amdano. Yn sgil hynny roedd y Pwyllgor wedi penderfynu archebu ail ddiffibriliwr ar gyfer criw'r De. Y bwriad yw iddynt gael eu cario ar deithiau'r Clwb rhag ofn y cyfyd argyfwng.

Un mater ag angen sylw yn y Cyfarfod Blynyddol yw tâl aelodaeth y Clwb yn y dyfodol ac fe ystyriwyd hyn wrth ystyried adroddiad y trysorydd.

Roedd rhywfaint o edrych ymlaen am ddyfodol mwy normal ym mhenderfyniadau'r Pwyllgor. Ar ôl gorfod gohirio y llynedd fe benderfynwyd mentro cynnal y Cyfarfod a Chinio Blynyddol unwaith eto eleni yng Ngwesty'r Oakley Arms. Yn ogystal cadarnhawyd y bydd y trefniadau i gynnal ein darlith flynyddol yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Nhregaron yn 2022 yn mynd yn eu blaen. Cytunwyd hefyd y dylid edrych ar y posibilrwydd o gynnal taith arferol mis Chwefror i'r Alban flwyddyn nesaf.

Gobaith y pwyllgor oedd y bydd y sefyllfa gyda Cofid 19 yn parhau i wella yn 2022 ac y cawn fwynhau amrywiaeth lawn o weithgareddau'r Clwb yng Nghymru a thu hwnt.

Derbyniwyd yr adroddiad

6. Adroddiad Ysgrifennydd Gweithgareddau.

Nododd Eryl bod Cofid 19 yn anffodus wedi cael effaith ar weithgareddau'r Clwb fel ag y gwnaeth yn 2020. Fodd bynnag er gwaethaf colli bron i bum mis i'r ail gloi mawr, llwyddwyd i gynnal 51 o deithiau rhwng rhai'r de a'r gogledd a'r rhai canol wythnos. Roedd hynny'n cymharu'n dda efo niferoedd blynyddoedd 'arferol' – 48 taith yn 2017, 44 yn 2018 a 58 yn 2019. Diolchodd i'r rhai hynny a fu'n barod i drefnu ac arwain taith; y nhw, mewn gwirionedd, yw'r bobl bwysicaf yn y clwb gan na fyddai gweithgareddau heb eu hymroddiad hwy.

Yn wyneb y trafferthion cofidaidd, roedd angen diolch ychwanegol iddynt am fod yn hyblyg a bod yn barod i gydymffurfio â'r amrywiol reoliadau. Gorfodwyd y Clwb i gyfyngu ar niferoedd am gyfnod ac felly trefnwyd, yn aml, fwy nac un taith ar yr un diwrnod neu'r un penwythnos. Roedd cyfle felly i drefnu dwy daith mewn gwahanol ardaloedd neu deithiau oedd yn amrywio o ran hyd neu natur y daith. Profodd hynny'n llwyddiannus gan fod mwy o ddewis i'n haelodau. Pan nad oedd angen cyfyngu ar niferoedd, penderfynwyd dal ati i gynnig yr un amrywiaeth trwy gynnig, yn y gogledd, taith bob penwythnos. Cawn weld a fydd digon o arweinwyr i barhau i wneud hynny.

Nododd bod croeso arbennig i rai sydd heb arwain o'r blaen i gynnig eu hunain. Mae'n brofiad braf gallu cyflwyno cyd-aelodau – ffrindiau'n wir – i un o'ch hoff deithiau ac mae pawb sydd wedi arwain yn gwybod nad ydi arweinydd ar ei ben ei hun; mae pawb yn fwy na pharod i rannu'r cyfrifoldeb ac i gynorthwyo. Cyfeiriodd Eryl at brofiad personol o hynny yn y modd y cydweithiodd pawb mor ragorol i wneud popeth a allent ar y diwrnod trist hwnnw pan gollwyd Gareth, un o'r aelodau mwyaf ffyddlon a brwdfrydig.

Roedd rhai aelodau'n mwynhau teithiau mynydd cymedrol ond eraill eisiau teithiau hirach a mwy heriol neu eisiau mwy o sgialu. Un nodwedd o'r flwyddyn neu ddwy ddiwethaf yw fod amryw o aelodau newydd, llawer ohonynt yn iau na nifer ohonom ni, yr hen do, wedi troi allan yn rheolaidd. Efallai bod yr elfen fwy heriol yn help i'w denu.

Cafwyd ymateb da i gwrs Cymorth Cyntaf a gynhaliwyd yn Llangors ac mae nifer ychwanegol wedi sicrhau cymwyster yn y maes hwnnw. Byddwn bob amser yn croesawu sylwadau ac awgrymiadau ar gyfer sut y gellir gwella'r ddarpariaeth.

Ar nodyn bersonol nododd os y byddai'n cael ei ethol am flwyddyn arall i'r swydd, byddai yn cyflwyno ei ddegfed adroddiad fel trefnydd gweithgareddau i'r Cyfarfod Blynyddol yn 2022. Nododd na fyddai yn dymuno cael ei ail ethol am gyfnod pellach wedi hynny.

Derbyniwyd yr adroddiad a diolchwyd i Eryl am ei waith diwyd yn trefnu'r rhaglen

7. Adroddiad Ysgrifennydd y Wefan.

Cafwyd adroddiad gan Iolo ap Gwynn ar faterion gwefan y Clwb

Adroddodd ar y canlynol :

i. Bu'n flwyddyn heriol i'r clwb, fel i bawb arall. Ond, bu'r gallu i grwydro am ran o'r flwyddyn yn werthfawr i lawer. Cofnodwyd hanesion 60 o deithiau ar y wefan ers y cyfarfod (rhithiol) diwethaf fis Tachwedd 2020. Bu'r wefan yn ddefnyddiol i gysylltu ag aelodau (a darganfod aelodau newydd), yn enwedig pan oedd angen diweddarau gwybodaeth am deithiau – weithiau ar y funud olaf. Mae'r wefan yn dal yn gydnaws â ffonau clyfar a llechi iOS ac Android yn ogystal â phorwyr ar bob math o gyfrifiaduron. Ii. Ii. Bellach, mae dros 8,100 o luniau o hanesion y teithiau yn ôl i 2005 gan aelodau'r clwb, i gyd ar gael drwy'r wefan ar lwyfan Flickr. Gall aelodau lawrlwytho y rhain ar gyfer defnydd personol.

iii. Ers Tachwedd 2020, bu 41,034 ymweliad â'r wefan gan 4,696 o ddefnyddwyr (y rhan fwyaf o'r DG a nifer o'r UDA a rhai o wledydd eraill). Bu'r defnydd yn weddol gyson drwy'r flwyddyn, ond yn dawelach yn ystod y cyfnod clo a phlegynau pryd roedd gweithgaredd gan y Clwb.

iv. Cyfeiriodd at y dudalen Newyddion ar y wefan a bod croeso i bawb ddanfon manylion neu hanes o unrhyw beth allai fod o ddiddordeb i'r aelodau. Cyhoeddwyd teyrngedau i ddau o aelodau gwreiddiol y Clwb a fu farw yn ystod y flwyddyn sef Gareth Pierce a Dafydd Prydderch Williams.

v. Roedd cyfrifon y Gweplyfr (Facebook), Trydar (Twitter) ac Instagram yn dal yn weithgar, i gyd yn cyd-lynu efo'r wefan. Cyhoeddir pob gweithgaredd – ynghyd â dolen i unrhyw adroddiad ar y wefan – ar y Gweplyfr. Gall unigolion ychwanegu eu lluniau neu sylwadau eu hunain at y rhain, yn ogystal â'r cyfrifon Trydar ac Instagram.

vi. Diolchodd i bawb a gyfranodd adroddiadau/hanesion a lluniau ar gyfer y wefan yn ystod y flwyddyn. Roedd yn gofnod arbennig o'n gweithgareddau. Daliwch ati!

Derbyniwyd yr adroddiad

8. Swyddogion y Clwb

Etholwyd y swyddogion canlynol ar gyfer 2022:

Ysgrifennydd Cyffredinol ac Aelodaeth : Iolo Roberts

Ysgrifennydd Gweithgareddau : Eryl Owain

Ysgrifennydd y Wefan : Iolo ap Gwynn

Trysorydd: Dilys A Phillips (gyda Richard Roberts i barhau i gynorthwyo yn ôl yr angen

9. Aelodaeth y Pwyllgor ar gyfer 2022

Adroddodd yr Ysgrifennydd Cyffredinol ac Aelodaeth bod swyddogion y Clwb ar gyfer 2022 eisoes wedi eu hail-ethol yn y cyfarfod. Roedd Dwynwen yn parhau fel Cadeirydd a Steve Williams fel Is-gadeirydd.

Yn ôl y cyfansoddiad bydd traean aelodau'r Pwyllgor (yr ymddiriedolwyr) yn ymddeol yn flynyddol, sef 4 aelod, er bod hawl i unrhyw un ohonynt gael ei ail-benodi. Y rhai sydd i ymddeol yw'r rhai sydd wedi bod yn eu swydd hiraf, sef Gareth E Roberts Eirwen Williams Gwyn Williams a Raymond Griffiths.

Bydd Gareth, Eirwen a Gwyn yn ymddeol ac roedd enwau Elen Huws, Sioned LL Jones a Keith Roberts wedi eu rhoi gerbron i wasanaethau ar y Pwyllgor yn 2022.

Roedd Raymond Griffiths wedi datgan ei fod yn fodlon parhau i wasanaethu ar y Pwyllgor.

Cytunwyd

i. yn sgil y wybodaeth uchod y bydd aelodaeth y Pwyllgor ar gyfer 2022 fel a ganlyn:

Cadeirydd

Dwynwen Pennant

Is-gadeirydd

Stephen Williams

Aelodau

Iona Evans
Raymond Griffiths
Dewi Hughes
Richard Roberts
Elen Huws
Sioned LL Jones
Keith Roberts

Swyddogion

Dilys A Phillips	Trysorydd
Eryl Owain	Ysgrifennydd Gweithgareddau
Iolo ap Gwynn	Ysgrifennydd y Wefan
Iolo Roberts	Ysgrifennydd Cyffredinol

ii. nodi gwerthfawrogiad a diolch i Gwyn, Eirwen a Gareth am eu cyfraniad i waith y Pwyllgor a'r Clwb.

10 Archwilydd

Penodwyd George Jones fel archwilydd.

11. Unrhyw Fater Arall

Cyfeiriodd Sian Shakespear at y digwyddiad ar daith y Clwb ar y 1af o Awst 2021 i fyny Moel Sych ar y Berwyn pryd anafodd aelod ei throed ac y bu'n rhaid galw y gwasanaethau brys a Thîm Achub i'w chynorthwyo. Daeth yn amlwg yn ystod y digwyddiad ei bod o fantais i gael ap ar ffon symudol sydd yn cynorthwyo i gysylltu â'r gwasanaethau brys. Roedd yn argymhell fod cymaint o aelodau a phosib yn lawrlwytho a chofrestru'r math yma o ap.

Cytunwyd argymhell i aelodau eu bod yn lawrlwytho a chofrestru ar yr ap dan sylw.

Cofio Gareth Pierce

Ar ddiwedd y cyfarfod croesawodd Dwynwen Lona Puw, modryb i Gareth drwy ei gŵr, y diweddar Dan Puw, ac Euros a Ffion, cefnder a chyfnither i Gareth o Castell Hen (neu 'Styllen), Parc, ger y Bala atom. Nododd Dwynwen ei bod yn fraint arbennig hefyd bod Lynwen Pierce, gweddw Gareth, a Luned Pierce ei chwaer yn gallu bod yn bresennol ac roedd pawb yn gwerthfawrogi yn arw, o gofio pa mor bwysig oedd y Clwb i Gareth, eu bod wedi ymuno â ni er gwaethaf yr amgylchiadau anodd

Ar ran y teulu talodd Euros deyrnged i Gareth a rhannodd atgofion hapus o fel y byddai Gareth yn blentyn a gŵr ifanc yn treulio ei wyliau'n byw a gweithio yn 'Styllen. Ac yntau rai blynyddoedd yn hŷn, roedd Gareth yn dipyn o arwr iddynt ac yn ddylanwad pwysig arnynt. Er hynny, dywedodd Euros iddo fethu mewn un cyfeiriad; ni lwyddodd i ennyn ynddo ddiddordeb mewn mynydda!

Cyflwynodd teulu Castell Hen ddiffibriliwr fel anrheg i'r Clwb er cof am Gareth. Roedd hwn yn fersiwn arbennig iawn o'r teclyn, yn fach ac ysgafn, ac wedi ei gynllunio'n arbennig ar gyfer gweithgareddau awyr agored. Y bwriad yw ei gludo ar bob taith. Roedd y Clwb wedi penderfynu prynu ail un yr un fath ar gyfer teithiau yn Ne Cymru.

Roedd Tomos Hughes o Wasanaeth Ambiwlans Cymru hefyd yn bresennol yn y cyfarfod. Fo drefnodd archebu'r diffibriliwr ar ran y teulu ac fe fyddai hefyd yn trefnu i archebu un arall ar gyfer criw'r de.

Diolchodd Dwynwen i'r teulu am ymuno â'r cyfarfod ac am eu caredigrwydd ac i Tomos am archebu'r diffibriliwr. Bu colli Gareth dan yr amgylchiadau yn ysgytwol i'r Clwb a'i aelodau ac roedd y rhodd yn un deilwng er cof amdano.

